Llyfrwerthwr
Palas Print, Caernarfon
20 – 30 awr yr wythnos
dyddiad cau 18-03-19

Swydd Ddifyr Rhan Amser

Wyt ti'n berson sydd

- â chariad at lyfrau Cymraeg a Saesneg ac wedi darllen yn eang
- yn mwynhau delio gyda, ac yn gallu delio ag ymholiadau cwsmeriaid yn gwrtais a chlen.
- yn mwynhau defnyddio TGCh a chyfryngau cymdeithasol
- yn egniol, trefnus a chlen
- yn hapus ac yn gallu gweithio ar dy liwt dy hun ac o dan gyfarwyddyd
- yn barod i ddatblygu sgiliau

Cyfrifoldebau

Darparu Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn y siop

- Gwerthu llyfrau Cymraeg a Saesneg/nwyddau i oedolion a phlant yn y siop
- Cynghori / cynorthwyo cwsmeriaid i ddod o hyd i lyfrau yn y siop
- Chwilota yn y cronfeydd data am lyfrau nad ydynt mewn stoc ac archebu
- Agor a chau'r siop gan gynnwys yr holl broses weinyddol ynghlwm â hyn

- Ail gyflenwi stoc y siop a gosod archebion cwsmeriaid gan gynnwys ysgolion a chwsmeriaid masnachol.
- Cynorthwyo i gadw trefn ar weinyddiaeth y siop yn cynnwys y wefan
- Cynorthwyo i hyrwyddo'r siop a chynnyrch y siop a digwyddiadau yn y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol

Bar Coffi a The

- Gwneud panad i gwsmeriaid
- Cadw'r bar coffi yn lan a destlus ac wedi'i stocio'n ddigonol

Siop ar Lein

- Delio ag archebion/ymholiadau a ddaw o'r we neu trwy E bost
- Cyflenwi archebion a'r gweinyddiaeth ynghlwm a'r broses

Ysgolion/cwsmeriaid masnachol

- Derbyn/prosesu a diwallu archebion gan ymdrin ag ymholiadau

Unrhyw ddyletswyddau eraill perthnasol i'r swydd.

Cyflog: isafswm o £18,700 (pro rata)
Darperir hyfforddiant

Ffurflen gais ymholiadau
palasprint.com
eirian@palasprint.com